Masnach Deg: Byd o wahaniaeth

Hanesion Cynhyrchwyr: Vitaliano

Anapqui, Bolivia, Quinoa

Vitaliano Ayaviri Huayllani

Mae Vitaliano Ayaviri Huayllani wedi bod yn gweithio gyda Anapqui ers 2001. Fel llawer o'r bobl sy'n gweithio yn y gwaith prosesu quinoa yn Challapata, mae hefyd yn ffermwr quinoa ac yn aelod o un o'r saith cwmni cydweithredol rhanbarthol sy'n ffurfio Anapqui. Mae'n gofalu am y gwaith o drawsffurfio'r quinoa sylfaenol i yn ffurfiau eraill megis fflochion, pops a blawd.

"Os ydych eisiau gwarant eich bod yn prynu quinoa organig, Anapqui yw hwnnw."

Mae gwraig Vitaliano, Daria Nina Apala, hefyd yn gweithio i Anapqui fel gofalwraig yr hen waith Anapqui. Mae Vitaiano a Daria'n byw yma gyda'i mab, Lorenzo, sydd eisiau mynd i'r brifysgol yn Cochabamba neu La Paz i astudio anthropoleg, a hefyd eu merch ieuengaf, Tatiana Mirabel. Mae gan eu dwy ferch hynaf eu plant eu hunain erbyn hyn.

"Mae gan Daria gytundeb parhaol gydag Anapuqi ac mae hynny'n rhoi sicrwydd i ni. Dyma'n bennaf yw'r manteision: gallwn fyw yma a does dim rhaid talu rhent nac am ddŵr a thrydan.

"Cyn 1983 doeddwn ni ddim yn gweithio fel hyn ac roedd yn rhaid i ni werthu'r quinoa am bris isel iawn ar y farchnad leol. Rydym yn ddiolchgar iawn fod Anapqui wedi'i sefydlu ac wedi dechrau archwilio'r farchnad i allforio'r cynnyrch, sy'n golygu fod y pris y quinoa yn llawer uwch.

Lluniau: Traidcraft/Carlos Grantham
Mae Anapqui'n cyflenwi pasta i Traidcraft.
Gwybodaeth o gyfweliadau ym mis Hydref 2008.

Masnach Deg: Byd o wahaniaeth

Hanesion Cynhyrchwyr: Luciano and Fisser

Anapqui, Bolivia, Quinoa

Luciano Ayauiri Huayllani

Mae Luciano'n ffermio quinao ac wedi bod â rhan yn Anapqui ers nifer o flynyddoedd, gan weithio yn ei ffatri yn Challapata am dair blynedd yn y 1990au. Mae'n llywydd un o'r saith cwmni cydweithredol rhanbarthol.

"Mae Anapqui'n agor cyfleoedd newydd o ran gwerthu'n cynnyrch. Y peth pwysicaf yw bod y cwmni cydweithredol yn gallu casglu holl gynnyrch ei aelodau a'i roi i Anapqui er mwyn ei werthu ar y farchnad gartref ac ar y farchnad dramor.

Fisser Garcia

Mae Fisser yn aelod o gwmni cydweithredol COPROQUIRC ym mhentref Irpani sydd â 122 o aelodau. "[Cyn Anapqui] roeddwn i'n gwerthu i fasnachwyr canolog ac roedd tri ohonyn nhw yn yr ardal. Doedd y quinoa ddim yn gwerthu cystal yr adeg hynny a hefyd roedden ni'n cynhyrchu mwy ohono ac felly'n cael pris is. Weithiau doedden ni ddim yn ei werthu am arian, dim ond ei gyfnewid am gynnyrch arall megis siwgwr a blawd.

"Y gwahaniaeth, yn enwedig o gymharu â chwmnïau preifat, yw, pan fyddwn ni'n gwerthu'n cynnyrch i Anapqui, y bydd Anapqui yn rhannu unrhyw elw ar ddiwedd y flwyddyn gyda'r holl aelodau. Os bydd cwmni preifat yn gwneud elw, bydd yn ei gadw iddo'i hunan. Dydyn nhw ddim yn rhannu unrhyw beth."

"Rydyn ni'n falch iawn eich bod yn defnyddio quinoa mewn pasta. Mae'n fwyd maethlon iawn."